



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adroddiad Blynyddol 2018-2019

Gweithredu heddiw
ar gyfer gwell yfory.



BETH SY'N NEWID?

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

NODYN GAN Y COMISIYNYDD

Yn y drydedd flwyddyn hon ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod i rym, ac ar gychwyn 20 mlynedd ers datganoli yng Nghymru, rwy'n falch i weld ei bod yn amlwg fod cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf ar y daith tuag at gynaliadwyedd ac wedi cychwyn cymryd camau gweladwy i gyflawni eu hamcanion llesiant a gwireddu'r nodau llesiant cenedlaethol, er gwaethaf yr amodau anodd (yn cynnwys caledi ac ansicrwydd ynghylch Brexit).

Ystyr hyn yw bod galw cynyddol wedi bod am fy nghyngor a'm cymorth oddi wrth gyrff cyhoeddus a sefydliadau. Felly, rwyf hefyd wedi dewis cynghori'n rhagweithiol ar faterion sy'n ymwneud â'm meysydd ffocws, sy'n gyfystyr â'm hamcanion llesiant fy hun – cynllunio, tai, trafnidiaeth, profiadau andwyol mewn plentyndod, gwell ffyrdd o gadw pobl yn iach a sgiliau'r dyfodol.

Mae'r adroddiad yn dweud pa waith sydd wedi cael ei wneud yn y meysydd hyn yn ystod 2018-2019.



SOPHIE HOWE

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory



TRAFNIDIAETH

Bu'n rhaid i Gymru ddewis a ddylid gwario o leiaf £1.4 biliwn ar adeiladu dyfodol trafnidiaeth gynaliadwy amgen. Yn dilyn fy nhystiolaeth i'r ymholiad cyhoeddus ar yr M4 yn 2017-2018, cydweithiais gyda Sustrans, Canolfan Drafnidiaeth a Chymdeithas Prifysgol Gorllewin Lloegr a'r New Economics Foundation i gyhoeddi Trafnidiaeth Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr ymyriad a'r dull hwn o fynd ati'n hanfodol yn y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4.

WelTAG - Yn dilyn fy nghyngor yn 2017-2018 mae Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn flaengar a chanolog ac yn cynrychioli newid cyfundrefnol arwyddocaol yn y modd y dylai cyrff cyhoeddus fynd ati i gynllunio'u trafnidiaeth, gan eu hannog i ffocysu ar ddatrysaidau sy'n lleihau allyriadau carbon, yn annog cydraddoldeb mynediad, gwella iechyd, ansawdd aer a hybu teithio llesol. Rydym yn pryderu nad yw'r rhai sy'n comisiynu ac ysgrifennu adroddiadau WelTAG yn medru cymhwyso'r Ddeddf a'r dulliau newydd o weithio, felly rwyf wedi bod yn glir iawn am fy nisgwyliadau, sef, os nad ydynt wedi cymhwyso'r pum dull o weithio yng Nghyfnod 1 bod angen iddynt gychwyn eto ac ni ddylai'r Llywodraeth ryddhau cyllid os na chaiff y broses ei dilyn yn gywir.

Masnachfaint Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru - rydym wedi parhau i'w cefnogi a'u herio i sicrhau bod yr holl gyfleoedd a addawyd ganddynt i gyfrannu tuag at y saith nod Llesiant yn cael eu cymryd.



Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

A globally responsible Wales

- Transport for Wales will have due regard to conserving and enhancing biodiversity and will comply with international legislation
- We will minimise the global impact of our waste
- We will support Wales' Fairtrade Nation status

A prosperous Wales


- We will provide work opportunities for small businesses and social enterprises
- We will provide staff the opportunity to access training
- Create 600 new jobs, investing in 30 apprenticeships every year
- More than 50% of new trains will be assembled in Wales
- We will divert 95% of our waste away from landfill and recycle at least 50%
- We will create a true 7-day railway with new Sunday and Bank Holiday services
- Become an accredited Living Wage employer by 2021 to be cascaded through our supply chain

A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language

- Our brand is bilingual we support the Welsh language through bilingual customer information & bilingual staff
- Fund & support all staff who want to learn
- Providing access to Wales' vibrant culture and natural heritage working with Visit Wales to develop a new rail and tourism strategy
- Supporting the work of local artists at stations
- Sponsoring the Eisteddfod through Gold level sponsorship

A Wales of cohesive communities

- Employing Customer and Community Ambassadors to encourage a greater sense of community around the rail network
- Doubling the number of Community Rail Partnerships, with 90% of stations to be adopted
- Engage with local communities to ensure their interests are at the heart of our decision-making
- Developing a more integrated transport network
- Recycling old train carriages for community use



A resilient Wales

- Electricity for stations and the overhead wires will come from 100% zero carbon energy, with at least 50% sourced in Wales
- We will reduce our water use by 50%
- We will manage environmental risk
- We will develop a Biodiversity Action Plan

A healthier Wales

- Promoting active travel, new cycle storage and safe, well-lit walking routes to encourage people to make healthier choices
- Reduce our contribution to air pollution
- Employing Community Ambassadors to work with local communities, encouraging and training people to use the rail network
- Mental health awareness training for all staff

A more equal Wales

- Developing a new fares structure to ensure price is not a barrier to using the network
- During off-peak, cheaper fares will be introduced including, under 16s being able to travel free with a paying adult, and the age limit for half fares will be increased from 16 to 18 across Wales
- Close working with Disability groups to improve accessibility and set up a new accessibility panel for ongoing input
- Staff will volunteer in the community and are offered time off to do so



Transport for Wales

LLUN: TRAFNIDIAETH GYMRU

Efallai mai un o'r enghreifftiau cliraf o'r modd y mae'r Ddeddf wedi effeithio'n llwyddiannus ar y lefel genedlaethol yw yn y cytundeb caffael mwyaf a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd y cytundeb caffael unigol mwyaf, gwerth £5bn, i fenter gyfun Ffrengig a Sbaenaidd KeolisAmey yn 2018. Canolbwyntiodd y gwaith modelu a wnaed gan KeolisAmey ar ddarparu'r saith nod llesiant, ac rwy'n croesawu agwedd gadarnhaol Trafnidiaeth Cymru a'u parodwydd i weithio gyda mi ac eraill i adnabod yr arfer orau'n rhyngwladol. Rwyf wedi parhau i gefnogi a herio Trafnidiaeth Cymru a gweithio'n uniongyrchol gyda'r gweithredwr newydd i sicrhau fod pob cyfle ar gyfer cyfrannu at y saith nod llesiant yn cael eu gweithredu.

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory



SGILIAU Y DYFODOL

I'r mwyafrif o gyrff cyhoeddus, roedd eu hamcanion yn ymroi i ymateb i alwadau'r economi cyfredol heb ffocysu ar wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ar yr un pryd.

Cyfyngodd y ffocws cul hwn ar gwmpas eu camau arfaethedig parthed datblygu sgiliau ac addysg. Er enghraifft, collasant y cyfleoedd i wella sgiliau mewn diwydiannau carbonisel, gwneud yn siwr bod y cyfleoedd sydd ar gael yn gyfartal i bawb, a sicrhau bod rhaglenni'n gwella iechyd y cyfranogwyr.

I fynd i'r afael â hyn rwyf wedi bod yn ymgysylltu ag Adolygiad Arloesedd Digidol Llywodraeth Cymru ac yn ystod y flwyddyn sy'n dod, drwy bartneriaeth ag Ysgol Fusnes Caerdydd byddaf yn cyhoeddi canllaw ar y camau y dylai gyrff cyhoeddus eu cymryd i sicrhau eu bod yn paratoi eu gweithlu eu hunain drwy roi iddynt y sgiliau a fydd eu hangen arnynt yn y dyfodol.

Fe wnaethom gynnal gweithdy rhwng cenedlaethau a bwrdd crwn arall gyda Phil Brown, Cadeirydd ar adolygiad Llywodraeth Cymru o arloesi digidol.



(ADRODDIAD IPPR 2019)

Mae 81.5% o'r gweithlu yng Nghymru yn 2030, a 60.8% o weithlu 2040 eisoes wedi gadael addysg orfodol.

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory



Lansio Cynllun Carbon Isel Llywodraeth Cymru

Sophie Howe (chwith) Mark Drakeford
(canol) a Sion Sleep (dde).

JANE HUTT AC DIRPRWY WEINIDOG A PHRIF CHWIP

"Mae'r Ddeddf yn ffordd unigryw o fynd i'r afael â heriau hirdymor ac mae'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd ac y byddant yn dilyn cynllun carbon isel ar gyfer Cymru yn dangos hynny."

DATGARBONEIDDIO

Yn Ebrill 2018, ysgrifennais at bob Ysgrifennydd Cabinet yn cynnwys Lesley Griffiths AC a Ken Skates AC a'u cynghori y dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddilyn y pum Dull o Weithio ac ystyried yr holl nodau llesiant wrth osod cyllidebau carbon a thargedau Cymru,
- Cyflymu gweithredu ar leihau carbon dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn ogystal â meddwl ymhellach ymlaen at 2030 a 2050.
- Cytuno ar ymrwymïadau gweinidogol mwy uchelgeisiol i leihau allyriadau sy'n ffurfio'r 45% sy'n weddill (h.y. sectorau anniwydiannol sydd o dan reolaeth Llywodraeth Cymru).
- Ystyried gofynion Cytundeb Paris byd-eang sy'n anelu at gadw cynhesu i 1.5 gradd a sicrhau ymgysylltu ehangach/ymgyfraniad i drwytho gwaith yn y dyfodol.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, ar 10 Gorffennaf cytunodd y Cabinet i ychwanegu datgarboneiddio fel chweched maes blaenoriaeth yn 'Ffyniant i Bawb'.

Gwnaethom ddarparu gyngor manwl i Lywodraeth Cymru ar ddatblygiad eu Cynllun ar gyfer Cymru Carbon Isel a gyhoeddwyd ym Mawrth 2019.

Dangosodd fy ngwaith monitro'r gyllideb eleni bod oddeutu 1% o gyllid Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynorthwyo gweithredu ar ddatgarboneiddio. Yn ddiweddar, fe wnes i gyhoeddi cynllun 10 pwynt ar gyllido'r argyfwng hinsawdd.

Rwy'n croesawu cyhoeddiad Lesley Griffiths am eu huchelgais i ddod â tharged Cymru i gyflawni allyriadau net o sero ymlaen i nid hwyrach na 2050.

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory



Mae angen i Sefydliad Siartredig Tai Cymru adeiladu 15,000 o gartrefi bob blwyddyn os bydd gennym unrhyw obaith o ddod â'r argyfwng dai i ben o fewn cenhedlaeth.

Mae cartrefi yng Nghymru'n cyfrannu i 8% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, a 97% o'r rheiny'n deillio o'r tanwydd a ddefnyddir ar gyfer gwresogi a choginio.

Rhestr Allyriadau Atmosfferig Naturiol (2015)

TAI

Rhaglen Tai Arloesol - Rwyf wedi herio Llywodraeth Cymru ar y modd yr oeddent yn dewis cynlluniau o dan y rhaglen dair blynedd gyda £90miliwn o gyllid i gynorthwyo'r sector tai, ac i feddwl mwy am y dyfodol a datblygu sail dystiolaeth o arfer gorau.

Wrth weithio gyda secondai o Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, rhoddais gyngor ar sut i wella ymwybyddiaeth ac asesiad Llywodraeth Cymru ac ymgeiswyr o'r prosiectau ym Mlwyddyn 2 a sut y gellir rhannu arfer gorau gydag eraill. Arweiniodd hyn at ymrwymiad oddi wrth y llywodraeth y byddai'r Ddeddf ym Mlwyddyn 3 yn cael llawer mwy o ystyriaeth a sylw manylach.

Gweithiodd fy swyddfa'n agos gyda'r Panel Adolygu Tai Fforddiadwy i ddarparu sesiynau cyngori a herio i gynorthwyo'r rhai oedd yn ymgyfrannu yn yr ymarfer i ganolbwyntio ar yr hirdymor, ar integreiddio a llesiant.

Cynghorais ddylai'r Adolygiad ystyried anghenion gwirioneddol o fewn Cymru, yn cynnwys tueddiadau'r dyfodol a'r cysylltiadau â datgarboneiddio a swyddi a sgiliau ar gyfer y dyfodol a phoblogaeth sy'n heneiddio.

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r Adolygiad ar 1 Mai 2019 ac mae'r argymhellion wedi eu halinio i fodloni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn 2019, byddaf yn ffocysu ar roi cyngor ar weithrediad argymhellion yr Adolygiad Tai, ac i'r Panel Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Presennol sydd i fod i adrodd yng Ngorffennaf.

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

CYNLLUNIO DEFNYDD TIR

Rwyf wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiweddar eu dogfennau cynllunio cenedlaethol, gan gychwyn gydag adolygiad llawn o Gynllunio Polisi Cymru (y strategaeth gynllunio genedlaethol i Gymru) a dyluniad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y cynllun gofodol statudol cenedlaethol i Gymru).

Mae'r rhain yn ddogfennau allweddol a fydd yn sbarduno cyfeiriad a dull y modd y bydd cyfraith gynllunio'n cael ei chymhwyso yn y blynyddoedd i ddod ac felly mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu cynllunio i sbarduno cynnydd tuag at y nodau llesiant.

Fel rhan o sicrhau bod yr holl system yn deall eu hymrwymiaidau o dan y Ddeddf, rwyf wedi ymgysylltu ag Arolygiaeth Cynllunio Cymru, gan arsylwi ar wrandawiadau cynllunio lleol ac ymchwiliadau a rhoi cyngor.

Mae Arolygiaeth Cynllunio Cymru yn ddiweddar wedi gwrthod apeliadau cynllunio am eu bod yn anghyson ag amcanion llesiant a'r saith nod llesiant.

Rwyf wedi ennyn ymgyfraniad llawer o sefydliadau yn cynnwys y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn fy ngwaith ac wedi treulio llawer o amser yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ar bob lefel o'r system gynllunio. Yn ddiweddar dechreuais hefyd gydweithio gyda Cymorth Cynllunio Cymru fel bod pobl yn cael y cymorth neu'r help sydd ar gael iddynt i unioni cam a sicrhau bod ymgynghorwyr Cymorth Cynllunio Cymru'n ymwybodol o'r Ddeddf ac o'n cyngor.



PHIL WILLIAMS, YMGYNGHORYDD CYNLLUNIO.

“Mae cyflwyno'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi ychwanegu dimensiwn newydd ac angenrheidiol at ein meddylfryd strategol, drwy sicrhau ein bod yn talu'r un sylw i'r dyfodol hirdymor ag i'r presennol.”

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory



**Cyngor i Lywodraeth Cymru
ar ystyried Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol yn y
broses gyllidebu**

Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru
Future
Generations
Commissioner
for Wales
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrâu'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

CYLLIDEB

Rwy'n monitro ac asesu'r gyllideb ddrafft bob blwyddyn ac yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Llynedd, cynghorais a chytunais yn llwyddiannus gyda Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, ddiffiniad o atal. Tra bydd yn cymryd amser i hyn gael ei ddeall yn llwyr ar draws y Llywodraeth, disgwyliaf weld sut mae'r diffiniad yn trwytho penderfyniadau ar wariant ac rydym yn falch i weld peth dadansoddi yn y gyllideb eleni.

Y llynedd, darlun cyfyngedig a gyflwynwyd gan y llinellau cyllideb a ystyriwyd yn erbyn y diffiniad o atal ac roedd yn anodd deall sut yr oeddent yn cydfynd â'r holl wariant arall mewn meysydd perthnasol. Tu hwnt i gyflwyniad naratif y gyllideb, nid oedd llawer o dystiolaeth bod penderfyniadau ar wariant yn cael eu gwneud mewn dull mwy integredig.

Cyhoeddais fy nghyngor i Lywodraeth Cymru am y newid y disgwyliaf ei weld ac rydym yn gweithio'n agos gyda Swyddogion y Trysorlys i gefnogi'r gwaith hwn. Eleni, byddaf yn monitro sut mae'r gyllideb yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

**JANE HUTT AC
DIRPRWY WEINIDOG A PHRIF CHWIP**

"Mae'r Comisiynydd wedi cael dylanwad pwerus ar y broses o symud Llywodraeth Cymru tuag at ymagwedd gyllidebu fwy ataliol."

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

NEWID YN Y SYSTEM IECHYD

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai dim ond 15-20% o iechnyd a llesiant cenedl sy'n ddibynnol ar ofal iechnyd ac eto mae dros 50% o gyllideb Llywodraeth Cymru'n cael ei ddyrannu i wariant ar iechnyd. Gan fod y gwasanaeth iechnyd mor eang ac mor ddibynnol ar ei berthynas gyllid â Llywodraeth Cymru, rwyf wedi ffocysu ar roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y modd y maent yn gweithio gyda chyrrff iechnyd, yn arbennig ynghylch eu cynllunio hirdymor.

Yn y sector iechnyd, mae hyn yn cael ei orchymyn gan Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, sef dogfennau allweddol sy'n nodi cerrig milltir a chmau gweithredu dros gyfnod o 1-3 blynedd. Yn dilyn fy nghyngor, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg, a Chaerdydd a'r Fro a Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn dangos tystiolaeth o ymgorffori'r Ddeddf drwy eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.


Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG 2019-22 yn awr hefyd yn rhoi mwy a mwy o bwyslais ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys diffiniad o 'atal', dolen i'n 'Taith' sy'n annog byrddau iechnyd i hunan-fyfrio ar eu cynnydd yn erbyn y Ddeddf.

Er gwaethaf hyn, credaf y gallai'r Llywodraeth wneud mwy i sbarduno'r newid sydd ei angen i weithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy alinio'u mesurau perfformio, dyraniadau cyllid a rhyngweithio o ddydd i ddydd â'r Byrddau Iechyd. Yn y flwyddyn sy'n dod byddaf yn ymgymryd â gwaith pellach i asesu sut mae'r Llywodraeth yn cynorthwyo gweithredu o fewn y Byrddau Iechyd.

Mae **Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan** yn manylu ar gynefin a daeareg eu hystadau ac yn unol â chanllawiau Ystâd Cyfeillgar i Beillwyr y GIG, wedi plannu blodau gwyllt.

Er nad yw'n gorff a enwir dan ddeddfwriaeth mae **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru** hefyd yn croesawu a chymhwyso egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae **Meddygon Teulu yng Nghaerdydd** yn presgreibio'r defnydd o 'Nextbikes' i'w cleifion i annog ffordd iachach o fyw a gwella adferiad.



*SAESNEG YN UNIG

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

ENGHREIFFTIAU O GEISIADAU

Cynhaliodd aelodau o dîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol weithdai 3 horizons (model ar gyfer meddwl am y dyfodol/hirdymor) yng Nghynhadledd Cynllunio Hirdymor GIG Cymru. Ei bwriad oedd helpu gweithwyr ieuchyd proffesiynol i feddwl a chynllunio ar gyfer yr hirdymor, un o'r pum dull o weithio. Roedd yr adborth yn anhygoel o gadarnhaol...

CEISIADAU AM GYNGOR A CHYMORTH

- Yn 2018-19 derbyniais dros 183 o wahanol geisiadau am help, 52% ohonynt oddi wrth gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf. Daeth eraill o blith: cymdeithasau tai, gyrff proffesiynol, prifysgolion a sefydliadau'r trydydd sector.
- O'r ceisiadau yr wyf wedi eu derbyn, roedd tua hanner ohonynt yn medru cael eu cynorthwyo drwy eu cyfeirio at /neu drwy addasu adnoddau oedd yn bodoli eisoes, neu drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae ceisiadau yr wyf wedi eu cynorthwyo'n cynnwys:
- Hyfforddiant ar fy Fframwaith Craffu Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghorau Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Caerdydd, Bro Morgannwg a Chaerffili.
- Darparu cyngor i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar ymgorffori ei amcanion llesiant.
- Cyfrannu at Gynllun Rheoli 'Cynllun Eryri - Parc Cenedlaethol Eryri' – roedd hyn yn ymwneud â chael y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid i ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Fel canlyniad, mae'r adroddiad drafft yn cynnwys themâu a chysylltiadau a wnaed ar draws y saith nod llesiant a'r pum dull o weithio.

"Cynhyrchodd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol weithdy ardderchog ar gyfer y digwyddiad diweddar ar 'Gynorthwyo Cynllunio Hirdymor' ym Mawrth 2019. Cynhyrchodd y gweithdy ddadl fywiog am ble 'roedd pobl yn gweld eu hunain ac eraill, a sut y gellir defnyddio'r dechneg hon yn hawdd mewn cyfarfodydd a phrosiectau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus. Profodd cynnal y gweithdy hwn yn y gynhadledd i fod yn newid gan roi i'r rhai a gyfranogodd 'ddigon i gnoi cil arno."

TÎM BYRDDAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL WRECSAM

"Roedd eich cyngor yn cynnwys digonedd o syniadau gwirioneddol d defnyddiol a fedraf eu darllen i gynyddu fy ngwybodaeth ac ysbrydoli ein byrddau syniadau."

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory



BETH YW LABORDY BYW?

Proses greadigol yw 'Labordy Byw' yr wyf yn ei ddefnyddio:

I ddod a gwelliannau arwyddocaol i lesiant

I archwilio problemau cymhleth a chyfleoedd o bersbectif cenedlaethau'r dyfodol

I herio'r ymagwedd 'busnes-fel-arfer'

I brofi ffyrdd o gyflawni newidiadau arwyddocaol mewn dylunio polisi a gwasanaethau

PROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD PLENTYNDOD

Rwyf wedi ymrwymo i helpu i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus 'â gwybodaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod' fel y gellir gwireddu'r newid trefniadol ac ymarferol ymddygiadol sydd ei angen. Llynedd, treuliais lawer o amser ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i gynyddu ymwybyddiaeth drwy roi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy'r broses gynllunio llesiant.

Mae'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn symud o godi ymwybyddiaeth i sbarduno newid sefydliadol. Rwy'n eu helpu gyda'r gwaith hwn, yn cynnwys drwy ymgorffori a chynnal arfer sydd wedi ei drwytho mewn elfennau trawma ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau.

Byddaf hefyd yn darparu Labordy Byw ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf. Dyma'r cymorth mwyaf manwl yr wyf wedi ei gynnig, sy'n ymwneud â gweithio a dysgu ochr yn ochr â nifer bach o gyrff a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gan ffocysu ar roi cynnig ar, a phrofi ymagweddau newydd.

BETH YW PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD (ACES)?

Profiadau sdreslyd sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol yw ACE (e.e. camdriniaeth rywiol neu gorfforol) neu sy'n effeithio ar yr amgylchedd ble maen nhw'n byw (e.e. cael eu magu mewn tŷ ble ceir trais yn y cartref). Am bob 100 oedolyn yng Nghymru, mae o leiaf 47 wedi dioddef o leiaf un ACE yn ystod eu plentyndod ac mae 14 wedi dioddef 4 neu ragor.

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory



YR ATHRO JONATHAN BOSTON - SELAND NEWYDD

"Mae'r ddeddfwriaeth (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn nodedig yn nhermau ei hehangder, ei chwmpas a'i huchelgais. Nid oes unrhyw beth sy'n union yr un fath â hi yn bodoli yn y byd ar hyn o bryd. Mae swm a sylwedd y gwaith a wnaethpwyd gan y Comisiwn mewn cyfnod byr iawn wedi gwneud argraff fawr arnaf, y modd y maent wedi ceisio rhoi mynegiant i'r ddeddfwriaeth a gwneud iddi weithio. Credaf, yn eich ffordd chi o siarad 'y byddai rhywun y codi ei het i chi'. Rwy'n siŵr bod Cymru'n mynd i fod yn un o'r goleuai ar y gorwel a fydd yn oleuni disglair, perthnasol i lawer iawn o awdurdodaethau eraill..."

RHYNGWLADOL

- Mae'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal i fod yr unig ddeddfwriaeth o'i bath yn y byd ac fe'i hystyrir fel enghraifft flaenllaw i eraill gan y Cenhedloedd Unedig.
- Yn Nghorffennal 2018 a Gorffennaf 2019, anerchodd y Comisiynydd y Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenhedloedd Unedig, yn Efrog Newydd. Fforwm blynyddol yw hwn sy'n olrhain cynnydd tuag at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.
- Yn Chwefror 2019, cyflwynais araith allweddol yn Uwchgynhadledd Llywodraethau'r Byd yn Dubai, Emiraethau Arabaidd Unedig.
- O ganlyniad, aeth Gweinidog Hapusrwydd a Llesiant yr Emiradau Arabaidd Unedig (EAU) ati i greu Strategaeth Lesiant ar gyfer yr EAU, yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae'r Comisiynydd yn gweithio'n agos â chynrychiolwyr uwch yn Nhrysorlys Llywodraeth Seland Newydd i rannu profiadau a dulliau, yn enwedig o ran cyllidebu.
- Mae'r Comisiynydd hefyd yn gweithio'n agos ag actorion â diddordeb ledled y byd, sy'n dymuno mabwysiadu deddfwriaeth debyg, gan gynnwys yr Iseldiroedd, Gibraltar a'r DU.
- Yn ystod fy ymweliad â'r Cenhedloedd Unedig ym mis Gorffennaf 2019, cyfarfûm â chennad arbennig y CU ar hinsawdd, Luis de Alba, a galonogwyd gan y gwaith sy'n digwydd gyda ni yng Nghymru, ac sy'n awyddus i arddangos y dull hwn yn Uwchgynhadledd Hinsawdd y CU ym mis Medi 2019.

Beth sy'n newid?

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory



- Mae'r Emiradau Arabaidd Unedig wedi mabwysiadu elfennau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu 'Strategaeth Llesiant EAU' a ffurfiwyd yn ddiweddar, ar ôl i ni ymweld â Dubai ym mis Chwefror 2019.

- Rydym ni'n cydweithio gydag asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Merched y CU, UN DESA (Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig) a'r Cennad Arbennig dros Newid Hinsawdd i archwilio ffyrdd o arddangos deddfwriaeth Cymru fel canllaw ar gyfer gwledydd eraill.

- Rydym ni'n archwilio cyfleoedd i gydweithio gyda Thrysorlys Seland Newydd ar 'Lesiant a chyllidebu ataliol' a chyd-greu pecyn offer ar gyfer Llywodraethau.

- Mae'r Comisiynydd yn parhau i fod yn Gadeirydd Rhwydwaith Sefydliadau dros Genedlaethau'r Dyfodol. Ymysg aelodau eraill mae'r Iseldiroedd, Israel, Canada a Hwngari.


Llun dde
Sophie Howe
(chwith) Mary
Robinson
(dde) yn Fforwm
Gwleidyddol Lefel
Uchel y CU.




Llun chwith
Sophie Howe
(chwith) H.E. Ohood
al Roumi, Gweinidog
Gwladol dros
Hapusrwydd a
Llesiant, EAU (dde)
yn Uwchgynhadledd
Llywodraeth y Byd.

Eisiau mwy o wybodaeth?

Darllenwch ein hadroddiad blynyddol neu cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod



**DARLLEN EIN HADRODDIAD
BLYNYDDOL LLAWN**



**DARLLENWCH EIN HADRODDIAD
BLYNYDDOL HAWDD EI DDARLLEN**



**GWYLIO EIN HADRODDIAD
BLYNYDDOL BSL**